

Iechyd a lles anifeiliaid: prosiectau dofednod

ar y rhwydwaith arddangos



FARMING
connect

cyswllt
FFERMIO

08456 000 813



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar
gyfer Datblygu Gwledig
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for
Rural Development
Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru/cyswlltffermio

Rhagair

Amcangyfrifir bod dros 350 o ddaliadau cynhyrchu wyau yng Nghymru bellach, sef cyfanswm o 2.3 miliwn o adar. Mewn ymateb i'r galw gan ddefnyddwyr, systemau dodwy wyau buarth yw elfen fwyaf amlwg y farchnad, gan gyfrif am tua 89% o'r cynhyrchiant.



leir yw'r categori mwyaf o ddofednod sy'n cael eu magu ar gyfer cynhyrchu cig, ac mae llai na 100 o gynhyrchwyr yn cyfrif am 90% o'r dofednod a gynhyrchir yng Nghymru. Rhwng 2016 a 2017, gwerth cig dofednod yng Nghymru oedd £45 miliwn a gwerth wyau oedd £52 miliwn.

Gall maint yr elw sy'n gysylltiedig â chynhyrchu cig dofednod ac wyau fod yn gyfyngedig, felly mae'n hanfodol rheoli costau yn dda er mwyn aros yn broffidiol. Mae Cyswllt Ffermio yn darparu cymorth i'r sector pwysig hwn o'r diwydiant ffermio er mwyn helpu i wella safonau iechyd a lles anifeiliaid, rheoli clefydau, gwella cynhyrchiant, lleihau costau ac annog defnydd cyfrifiol o is-gynhyrchion y sector, er enghraifft, ynni a thail ieir.

Mae'r llyfryn hwn yn cynnig cipolwg ar rai o'r prosiectau iechyd a lles anifeiliaid sydd wedi cael eu cynnal ar ddetholiad bach o ffermydd ffocws Cyswllt Ffermio yn ystod y tair blynedd diwethaf.

Mae'r prosiectau hyn yn dangos sut mae ffermwyr dofednod sy'n cymryd rhan yn y fenter hon wedi elwa ar gyflwyno systemau mwy effeithlon sydd

wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol a chyflwyno gwell gweithdrefnau. Ymhlith y pynciau a'r materion a drafodir mae rhoi mesurau bioddiogelwch llym ar waith i leihau'r peryglon o glefydau, rheoli gwiddon coch a sicrhau'r trefniadau gorau o ran hwsmonaeth, adeiladau a maeth.

Mae'r holl ffermwyr y darllenwch amdanynt wedi cael eu hannog i ddefnyddio technolegau newydd sydd yn eu helpu i leihau costau, bodloni gofynion cwsmeriaid a gwneud y mwyaf o adnoddau llafur. Gyda chymorth ac arweiniad gan rai o brif arbenigwyr dofednod y DU, maent yn 'cyflawni mwy gyda llai', gan adeiladu systemau wyau a chig dofednod cynaliadwy sy'n addas ar gyfer y dyfodol.

I gael y newyddion diweddaraf am brosiectau a threialon rhwydwaith arddangos Cyswllt Ffermio, ewch i'n gwefan **www.gov.wales/farmingconnect**

Mae'r prosiectau hefyd yn dangos pa mor bwysig yw gweithio gyda'ch milfeddyg i sicrhau bod y cyngor wedi'i deilwra ar gyfer eich anifeiliaid a system ffermio. Mae datblygu cynllun iechyd anifeiliaid ar y cyd â'ch milfeddyg yn rhan hanfodol o reoli unrhyw fenter da byw. At hyn, gallwch gyfeirio at godau ymarfer lles anifeiliaid sydd ar gael yn **www.llyw.cymru/lles-anifeiliaid**

Dewi Hughes

Rheolwr Datblygu Technegol, Cyswllt Ffermio
Gwanwyn 2020

Cyswllt Ffermio - eich helpu chi i yrru eich busnes yn ei flaen

Gall busnesau cymwys sydd wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio gael mynediad at amrediad eang o wasanaethau cymorth, canllawiau a hyfforddiant Cyswllt Ffermio.

Mae nifer o'r gwasanaethau wedi eu hariannu'n llawn, tra bod eraill yn cael eu hariannu hyd at 80%

Ewch i'n gwefan i weld sut gallwch chi:

- gael budd o gefnogaeth fusnes cymhorthdaledig, wedi ei deilwra at eich anghenion busnes
- lleihau taliadau allan a chynyddu effeithlonrwydd ym mhob agwedd ar eich busnes
- meincnodi eich perfformiad a gweithio tuag at gynnydd a thwf
- nodi meysydd i'w gwella a dod o hyd i atebion i broblemau
- datblygu eich sgiliau fel rhan o'n rhaglen datblygiad proffesiynol parhaus /dysgu gydol oes
- cael gwybodaeth am y datblygiadau diweddaraf ym maes technoleg trwy ddatblygiadau yn y diwydiant a'r ymchwil diweddaraf
- rhannu arfer da ac elwa ar wybodaeth ffermwyr eraill, arbenigwyr yn y diwydiant ac ymchwil academaidd
- cael eich ysbrydoli gan syniadau newydd a dod o hyd i ffyrdd mwy effeithlon a blaengar o weithio



Gwerth tail ieir sy'n cael ei gynhyrchu gartref fel gwrtaith

Mae diwydiant dofednod Cymru wedi ehangu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf ac o ganlyniad mae tail dofednod ar gael yn fwy eang. Mae'n cynnwys llawer o nitrogen, ffosffad, potash ac elfennau hybrin (sodiwm, haearn, manganês, sinc, copr, calsiwm) a gall wella nodweddion ffisegol a biolegol y pridd ar gyfer cynhyrchu amaethyddol, os caiff ei ddefnyddio'n gywir.

Rhaid hefyd ystyried y risgiau bioddiogelwch sy'n gysylltiedig â defnyddio tail dofednod, neu unrhyw dail arall. Rhaid cymryd gofal i sicrhau nad yw heidiau dofednod eraill yn mynd ar y tir lle defnyddir y tail. Mae'n bwysig hefyd ystyried y risg o boblogaethau

adar gwyllt, yn enwedig os oes llawer o adar gwyllt yn ymweld â'r caeau lle mae'r tail yn cael ei chwalu neu ei storio. Dylid compostio tail yn y ffordd gywir cyn ei ddefnyddio er mwyn cynyddu'r siawns o ladd bacteria pathogenaidd. Yn achos tail o unedau dofednod lle cafwyd achosion o glefydau, bydd yn rhaid defnyddio dulliau rheoli gwahanol a dylid gofyn am ragor o arweiniad cyn mynd ati i chwalu tail.

Wrth i ragor o dail dofednod ddod ar gael, mae'n hanfodol cael cynllun rheoli maetholion er mwyn atal gorddefnyddio maetholion, amddiffyn ansawdd dŵr a lleihau'r effaith ar yr amgylchedd gan sicrhau'r cynnyrch gorau posibl er budd y busnes ar yr un pryd.



Gweithiodd fferm ffocws Lower Eyton ger Wrecsam gyda Cyswllt Ffermio yn 2018 i ystyried sut gall ffermwyr wneud y defnydd gorau o'r gwrtaith maent yn ei gynhyrchu eu hunain. Mae'r fferm yn cynnwys tir â'r buches biff ac uned yn cynnwys 5,000 o ieir buarth. Yn ogystal â chynhyrchu ei thail dofednod a biff ei hun, mae slwtsh carthion hefyd ar gael ar y fferm. Nid yw'r fferm mewn Parth Perygl Nitradau (NVZ) ar hyn o bryd; fodd bynnag, mae'r fferm mewn ardal 'agored i niwed gan nitradau', ac roedden nhw eisiau rheoli gwrteithiau anifeiliaid sy'n uchel mewn nitradau yn ofalus gan gael y cynnyrch gorau yn ddiogel ar yr un pryd.

Amcanion y prosiect

Asesu gofynion cnydau, statws y pridd, a chyfateb hyn â'r maetholion sydd ar gael mewn gwrtaith a gynhyrchir gartref.

Datblygu dull wedi'i deilwra ar gyfer rheoli maetholion, gan brynu gwrtaith yn ôl yr angen yn unig, yn hytrach na'i ddefnyddio o hyd.

Canlyniadau'r prosiect

Gwerth tail gwartheg buarth a gynhyrchwyd gartref (FYM) - **£4,580**



Gwerth tail dofednod a gynhyrchwyd gartref **£1,019 o 5,000** o adar



Mynegai targed pridd y fferm:

pH - 6.0
P - Mynegai 2
K - 2-

- Roedd angen calch ar gyfer 19 o'r 35 o gaeau a aseswyd oherwydd bod lefel y pH yn isel
- Roedd perygl o lygredd tryledol oherwydd y mynegeion maetholion uchel yn y priddoedd
- Roedd mynegai ffosffad o 4 mewn dau gae felly dylai'r fferm osgoi chwalu Ffosffad yn y caeau hyn i ostwng y mynegai

Gwerth cynllun rheoli maetholion:

Dylech ymdrin â **phob cae yn ei dro** wrth ystyried cynnal a gwella statws maetholion pridd i wella cynhyrchiant y fferm

Dadansoddwch lefelau pH, Nitrogen (N), Ffosffad (P), Potasiwm (K) a Magnesiwm (Mg) bob 3-4 blynedd

Defnyddio tail dofednod

- Maetholyn gwerthfawr ar laswelltir neu dir âr
- Gellir ei ddefnyddio i gynhyrchu trydan, gan gynhyrchu lludw sy'n gyfoethog o ran ffosffad a photash y gellir ei ddefnyddio fel gwrtaith
- Gellir ei ddefnyddio i gynhyrchu bio-ologs, cyflyrydd pridd, y gellir ei ddefnyddio fel gwrtaith ar gnydau fel ffa ac india-corn
- Gellir ei ddefnyddio fel compost

Prif negeseuon y prosiect

- Os oes angen defnyddio gwrtaith wrea, gwnewch hynny yn y gwanwyn pan fydd y tymheredd yn isel ac ychydig o anweddu sy'n digwydd. Gall ei ddefnyddio y tu allan i'r cyfnod hwn arwain at fwy o risg o ollwng i'r ecosystem ehangach a chost heb enillion i'r busnes
- Cadwch gofnod parhaus o'r defnydd o dail
- Bydd ailgyfeirio tail organig at gaeau lle mae'r mynegai yn is yn helpu i gadw cydbwysedd lefelau maetholion pridd
- Targedwch chwalu tail organig yn y gwanwyn lle bo'n bosibl i sicrhau bod digon o nitrogen ar gael i'r cnwd dyfu



Dylech bob amser

- Sicrhau nad yw gwrtaith yn llifo i ddŵr
- Paratoi a dilyn cynllun rheoli tail a chynllun rheoli maetholion
- Ni ddylid chwalu mwy na 250kg o nitrogen fesul hectar y flwyddyn. (Nid yw hyn yn cynnwys tail a ollyngir gan anifeiliaid sy'n pori)
- Gwirio dyfrffyrdd yn aml, yn ystod ac ar ôl chwalu
- Gadael o leiaf tair wythnos rhwng chwalu i osgoi selio'r arwyneb ac i roi digon o amser i'r pridd amsugno'r maetholion

Peidiwch byth â

- Chwalu pan fydd yn debygol y bydd yn llifo i ddyfrffordd
- Gadael i elifiant silwair, slyri, tail neu ddŵr budr i fynd i ddyfrffordd
- Chwalu deunyddiau organig hylifol pan fydd glaw trwm ar y ffordd o fewn 48 awr - gall dŵr glaw sy'n llifo o gaeau sydd wedi cael slyri yn ddiweddar achosi llygredd hefyd
- Chwalu mwy na 50m³ (50t) fesul hectar ar y tro
- Chwalu ar dir sydd wedi gorlifo neu sy'n debygol o gael ei orlifo

Defnyddio technoleg i wella effeithlonrwydd busnes ac iechyd a diogelwch



Mae gan dechnoleg ran fawr i'w chwarae yn y sector ffermio. Mae technoleg newydd yn cael ei datblygu'n barhaus yn y diwydiant er mwyn helpu i wella effeithlonrwydd. Ystyrir bod y diwydiant dofednod ar flaen y gad ym maes technoleg newydd, oherwydd ei allu i roi systemau ar waith mewn amgylcheddau rheoledig. Mae Genau Hafod, fferm ffocws Cyswllt Ffermio ger y Drenewydd, yn cadw 42,000 o ieir dodwy, yn ogystal ag uned bîff a defaid. Cesglir tua 40,000 o wyau yn ddyddiol ac maent yn cael eu pecynnu mewn ystafell becynnu ganolog yn y sied ieir wreiddiol. Sylweddolodd y pedwar sy'n gweithio ar y fferm y gellid gwneud arbedion drwy gyflwyno technoleg newydd wedi'i hawtomeiddio i rai agweddau ar y system gynhyrchu. Gan weithio gyda Cyswllt Ffermio, aeth y busnes ati i dreialu robot pecynnu wyau, er mwyn gwella effeithlonrwydd y busnes.

Canlyniadau'r prosiect

Arbedion ariannol dros **5** mlynedd
£34,264



Cost enghreifftiol robot pecynnu wyau:
£30,000



Arbedion Blynnyddol **£6,853**



Bydd y robot wedi talu am ei le mewn **4** blynedd



2.5 awr o waith yn llai bob dydd



Casgliadau'r ffermwr: 'Diolch i'r robot, gall un ohonon ni gasglu'r wyau yn hawdd, gan olygu bod modd cwblhau tasgau dyddiol yn gyflym ac yn effeithlon. Mae hefyd yn golygu nad ydyn ni'n dibynnu ar ein gilydd a dydyn ni ddim yn rhuthro i gwblhau dyletswyddau eraill yn gysylltiedig â rheoli dofednod.'



Prif negeseuon

Pam cyflwyno system becynnu wyau awtomatig?

Gwelliannau ar draws yr holl fusnes

- Effaith anuniongyrchol ar gynhyrchu wyau. Mwy o amser i gwblhau tasgau hwsmonaeth adar, gan leihau marwolaethau a gwella lles

Gwelliannau i safonau lles, iechyd a diogelwch staff

- Staff yn gwneud llai o waith ailadroddus
- Yn debygol o leihau achosion o straen yn gysylltiedig â thasgau ailadroddus a niwed hirdymor a achosir gan amodau gwaith
- Lleihau'r angen i godi eitemau trwm a lletchwith

Mae mwy o hyblygrwydd wedi gwella effeithlonrwydd adnoddau gan ddod ag arbedion costau buan

- Gwell defnydd o'r gweithlu, gall un gweithiwr wneud y gwaith pacio bellach, gan ryddhau'r llall i wneud tasgau eraill
- Mae tasgau dyddiol yn cael eu cwblhau yn gynt ac yn fwy effeithlon
- Arbed amser, ymdrech ac arian

Bodloni gofynion proseswyr

- Mae dilyn methodoleg becynnu'r proseswyr yn helpu i gadw contractau

Treialu synwryddion mapio amgylcheddol mewn unedau cywion brwylio



Bydd rheoli amodau amgylcheddol yn effeithiol mewn siediau magu cig dofednod yn helpu i leihau costau cynhyrchu. Y nod yw darparu amgylchedd sy'n gwneud y mwyaf o berfformiad yr haid, yn cyflawni'r cyfraddau twf gorau ac unffurf ac effeithlonrwydd porthiant uchel, ac ar yr un pryd, sicrhau na chaiff safonau iechyd a lles yr adar eu peryglu.

Fe wnaeth Cyswllt Ffermio dreialu system synwryddion diwifr i fonitro tymheredd a lleithder o bell ar fferm ffocws yng Ngogledd Cymru. Roedd y data a gasglwyd yn rhoi cofnod gweledol mewn amser real o'r heriau o ran tymheredd a lleithder yn y sied ddofednod. Roedd modd defnyddio'r mapiau byw a luniwyd fel sail ar gyfer penderfyniadau rheoli, gan gynnwys:


- Monitro tymheredd a lleithder mewn amser real
- Addasiadau i'r awyru yn ôl y lefelau lleithder
- Addasu'r porthiant yn ôl tymheredd yr amgylchedd
- Cymryd camau ataliol drwy addasu a gwella awyru a chynllun yr adeiladau
- Canfod lle mae lleithder yn cronni oherwydd gwasarn llaith, draeniad gwael neu dywydd clôs

Canlyniadau'r prosiect


- Dangosodd y synwryddion PrognostiX nad oedd tymheredd a lleithder yn unffurf ar lefel yr adar yn y sied
- Dangosodd y map gwres amgylcheddol yr ardaloedd yn yr adeilad lle nad oedd y tymheredd a'r lleithder cymharol yn optimaidd, gan amlygu lle'r oedd angen gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau cyfraddau twf gorau ac unffurf yr adar ym mhob criw cynhyrchu

Manylion gweledol a ddarparwyd gan y dechnoleg synwryddion

Tymheredd dyddiol cyfartalog pedwar criw




Tymheredd yn erbyn lleithder cymharol ar draws pedwar criw




Amrywiad o ran lleithder cymharol ar draws y sied, cyfartaledd ar draws pob criw (%)


Gwahaniaethau o ran lleithder cymharol cyfartalog ar draws criw 1 ar draws y sied




Gwahaniaethau o ran lleithder cymharol cyfartalog ar draws criw 2 ar draws y sied



Gwahaniaethau o ran lleithder cymharol cyfartalog ar draws criw 3 ar draws y sied



Gwahaniaethau o ran lleithder cymharol cyfartalog ar draws criw 4 ar draws y sied





Prif negeseuon

- Bydd rheoli amodau amgylcheddol yn effeithiol mewn unedau dofednod yn lleihau cyfanswm y costau cynhyrchu
- Amonia yw un o'r problemau ansawdd aer mwyaf cyffredin, gan arwain at broblemau iechyd a pherfformiad is ymhlith adar. Mae awyru cywir yn lleihau'r perygl y bydd amonia yn ymgasglu, drwy reoli lleithder cymharol yn yr adeilad
- Darparu amgylchedd unffurf yn yr adeilad i'r adar; gall pocedi o aer marw, ardaloedd oer neu boeth ostwng perfformiad heidiau a gall gynyddu eu cyfraddau marwoldeb



Gwella effeithlonrwydd ynni mewn unedau dofednod dwys



Mae'r galw mawr am ynni ar gyfer gwresogi, awyru, goleuadau a phorthi mewn unedau dofednod yn arwain at gostau ynni uchel. Gall camau syml i wella effeithlonrwydd ynni arwain at arbedion sylweddol, yn enwedig mewn hen adeiladau. Trwy gael gwell dealltwriaeth am y defnydd o drydan ar y safle gellir cyflwyno mesurau i leihau'r gofynion ynni yn y dyfodol, gan arwain at gostau is a lleihau allyriadau nwyon ty gwydr.




Cafodd y defnydd o ynni ei werthuso ar fferm ffocws Y Wern, ger y Trallwng yn 2017, mewn uned lle cedwir 32,000 o ieir. Cynhaliwyd archwiliad ynni gan ddefnyddio coiliau Rogowski a lapiwyd o amgylch pob un o'r ceblau sy'n cyflenwi'r prif fwrdd dosbarthu, a gysylltwyd â chofnodydd data.

Cofnodwyd y defnydd o ynni dros gyfnod o chwe diwrnod, gan fonitro'r uned dros 24 awr. Roedd yr archwiliadau'n dangos y gofynion ynni yn ystod y diwrnod gwaith arferol ac ar yr adegau pan oedd y galw mwyaf am ynni, gan ddangos beth oedd gofynion ynni tasgau dyddiol. Archwiliwyd dosbarthiad y llwyth ynni hefyd. Amlygodd y prosiect syniadau ac arfer gorau y gellir eu hystyried gan systemau dofednod dwys eraill ar draws Cymru.

Mae'r graff isod yn dangos y galw am ynni dros gyfnod o 24 awr. Mae'r graff yn dangos y galw am ynni yn ystod y diwrnod gwaith arferol a'r adegau pan mae'r galw ar ei uchaf.

Galw am ynni dros gyfnod o 24 awr



Prif negeseuon

Mae sicrhau bod gennych gontract cyflenwad trydan cystadleuol yn hollbwysig i arbed costau.

Costau ynni Y Wern

28 ceiniog fesul aderyn /blwyddyn (yn 2017)



Ystyrir bod hyn yn ganolig i uchel ar gyfer siediau o **32,000** o adar



Cydbwysu rheoli llwyth

Gall rheoli llwyth ddylanwadu ar y cyflenwad o ynni ar foltedd cyson, felly mae'n bwysig cydbwysu'r galw am ynni yn gyson ar draws y llwyth, lle bo'n bosibl.

Sut i arbed ar gostau ynni

- Gofyn am ddyfynbrisiau gan sawl cyflenwr ynni a chymharu'r gost fesul uned
- Cytuno ar dariffau ynni aml-gyfradd
- Bydd arferion da yn sicrhau nad yw trydan yn cael ei wastraffu. *Er enghraifft: diffodd goleuadau a pheiriannau pan nad ydynt yn cael eu defnyddio, ac ar lefel uwch, ystyried lleihau'r amser y bydd moduron a chludfeltiau yn rhedeg yn yr uned*
- Ystyried y goleuadau yn yr adeilad. Ystyried newid o oleuadau fflwroleuol safonol i LED a fyddai'n lleihau'r defnydd o ynni
- Gwneud y mwyaf o'r thermostat a sicrhau ei fod yn gweithio'n gywir. *Bydd hyn yn sicrhau bod costau fffaniau awyru ar eu hisaf; oherwydd gall y rhain gyfrif am gyfran mawr o'r trydan a ddefnyddir yn ystod misoedd yr haf*

Rheoli gwiddon coch mewn unedau dodwy



Mae gwiddon coch, *Dermanyssus gallinae*, i'w gweld ar draws y diwydiant dofednod ac maent yn ffynnu yn amodau byw systemau dofednod. Mae'n hysbys bod gwiddon coch yn cynyddu cyfraddau anaemia, marwoldeb a chlefydau, yn ogystal â chael effaith andwyol ar broffidoldeb busnesau gan effeithio ar effeithlonrwydd porthi, cynhyrchu wyau, ansawdd wyau a'r cynnydd ym mhwsau adar.

Gweithiodd Cyswllt Ffermio gydag Osian Williams o fferm ffocws Y Wern i asesu maint y broblem gwiddon coch ar y fferm. Roedd y prosiect yn archwilio'r defnydd o'r cynnyrch Exzolt fel dull o reoli gwiddon coch yn y sied ddodwy. Mae Exzolt yn cael ei roi yn y dŵr yfed, ac mae'r cynhwysydd actif, ffluralaner, yn cael ei amsugno yn y coluddion gan symud i lif gwaed yr aderyn. Ar ôl bwydo ar waed aderyn wedi'i drin, bydd system nerfol gwiddon coch yn cael ei heffeithio yn y lle cyntaf. Bydd y gwiddonyn coch yn marw'n fuan wedyn ac mae'r gyfradd lladd hyd at 99%.

Defnyddiwyd systemau diagnostig AviVet i asesu'r gwiddon coch, drwy osod trapiau mewn manau strategol yn yr ardaloedd lle ceir y lefelau uchaf



o 'draffig' adar. Ar ôl 48 awr, cafodd y trapiau eu casglu, eu rhewi, a'u pwyso cyn i filfeddyg asesu a oedd angen rhoi Exzolt i'r haid. Casglwyd gwybodaeth a chofnodion perfformiad am yr haid i asesu a oedd yr adar yn adweithio i'r cynnyrch ac i ystyried ei effaith bosibl ar gynhyrchiant.

Nod y prosiect oedd dod o hyd i ffordd effeithiol ac ariannol hyfyw o reoli gwiddon coch mewn unedau dodwy.

Effaith economaidd gwiddon coch ar y diwydiant



Canlyniadau pla o widdon coch ar gynhyrchiant

- Effaith negyddol ar iechyd a lles cyffredinol
- Effaith negyddol ar y gymhareb trosi porthiant
- Gostyngiad mewn cynhyrchiant wyau
- Cynnydd yn nifer yr wyau isradd
- Mwy o debygolrwydd o glefydau dofednod
- Mwy o golledion

Y colledion posibl mewn uned enghreifftiol o 16,000 o adar

Gostyngiad o 10% mewn allbwn



11,200 yn llai o wyau yr wythnos



Colled o £3,136/y mis

Mae colledion sy'n gysylltiedig â gwiddon coch yn costio'r diwydiant dofednod Ewropeaidd
£322 miliwn/y flwyddyn



Mae dwysedd gwiddon coch yn amrywio o
25,000 - 500,000 o widdon/yr iâr



Mae **83%** o ffermydd dofednod Ewrop yn dioddef oherwydd plâu o widdon coch



Rheoli gwiddon coch mewn unedau dodwy



Problemau iechyd a achosir gan widdon

- Colli 3% o gyfaint gwaed bob nos
- Lefelau straen uwch
- Mwy o boen a llid ar y croen
- Pigo plu yn ffyrnig
- Ymddygiad canibalaidd
- Yfed a bwyta mwy
- Mwy agored i glefydau

Sut gellir rheoli gwiddon coch?

- Cynllun adeiladau
- Rheoli'r haid ac amodau amgylcheddol
- Deall y cynhyrchion rydych yn eu defnyddio
- Sicrhau mesurau bioddiogelwch llym
- Sicrhau bod gweithdrefnau glanhau trylwyr yn eu lle
- Gweithio gyda milfeddyg i gynnwys gwiddon coch yng nghynllun iechyd yr haid

Dylai unrhyw un sy'n dod o hyd i adar gwyllt marw ffonio llinell gymorth Defra **03459 33 55 77**.

Cyswllt Ffermio



www.llyw.cymru/cyswlltffermio



08456 000 813



farmingconnect@menterabusnes.co.uk



[Facebook.com/CyswlltFfermio](https://www.facebook.com/CyswlltFfermio)



[@CyswlltFfermio](https://twitter.com/CyswlltFfermio)